# Cofrestr Risgiau Cymunedol Gwent



**2023 (Rhifyn 1)**

Dogfen wedi ei pharatoi gan:
Gweithgor Asesu Risgiau Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gwent

# Cynnwys


**CYFLWYNIAD** **2**

Beth yw Fforwm Cydnerth Lleol Gwent? 2

Pam Ydym yn Bodoli? 3

Beth yw Argyfwng? 4

Proffil Ardal Gwent 5

**Y RISGIAU** **7**

Trosolwg O'r Risgiau Cyfredol 8

Afiechydon Heintus Dynol 11

Tywydd Garw

Llifogydd 15

Colli Seilwaith Critigol 17

Damweiniau Diwydiannol 19

Clefyd Anifeiliaid 21

Digwyddiadau Trafnidiaeth 23

Bygythiadau Maleisus 25

**CYNGOR AM BARODRWYDD** **27**

Eich Cartref 27

Eich Cymuned 30

Eich Busnes 31

**MANYLION CYSWLLT DEFNYDDIOL**




# Cyflwyniad

## Croeso i'r  Gofrestr Risgiau Cymunedol ar gyfer Fforwm Cydnerth Lleol Gwent.

Mae'r pandemig coronafeirws wedi effeithio ar ein bywydau i gyd, ac wedi atgyfnerthu'r ffaith anffodus bod argyfyngau yn digwydd. Pan eu bod yn digwydd, fel i ni weld, maent yn meddu ar y potensial i fygwth ac aflonyddu ar fywydau unigolion a chymunedau, weithiau gyda chanlyniadau difrifol.

Mae'r llyfryn hwn wedi ei ddylunio er mwyn eich hysbysu o'r risgiau hynny a'r canlyniadau posib.

Yn ogystal ag amlinellu'r hyn sydd yn cael ei wneud yn ardal Gwent er mwyn lliniaru effaith unrhyw argyfyngau rhag digwydd, mae'r llyfryn hefyd yn cynnig gwybodaeth i'ch helpu chi ystyried yr hyn sydd yn medru cael ei wneud er mwyn paratoi eich  hun, eich teulu, eich busnes a'ch cymuned, yn well er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau argyfwng.

## Beth yw Fforwm Cydnerth Lleol Gwent?

Mae Fforwm Cydnerth Lleol Gwent (FfCLl) yn gyfrifol am ardal Heddlu Gwent ac yn bartneriaeth sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau argyfwng, yr awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, asiantaethau iechyd,  Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, cyfleustodau, y fyddin, Llywodraeth Cymru a mudiadau gwirfoddol ac asiantaethau preifat eraill.

Er nad yw'r FfCLl yn gorff statudol, mae'n broses statudol.

## Ein nod strategol yw:

‘Sefydlu a chynnal trefniadau aml-asiantaeth effeithiol er mwyn ymateb i argyfyngau sylweddol, er mwyn lliniaru effaith yr argyfyngau hynny ar y cyhoedd, eiddo a’r amgylchedd yn ardal Heddlu Gwent, ac yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posib 2004.’

Mae’r holl asiantaethau yn gweithio gyda’i gilydd er mwyn sicrhau’r paratoadau a’r cynlluniau gorau posib fel bod modd atal, paratoi ar gyfer, ymateb ac adfer yn dilyn unrhyw argyfyngau sylweddol sydd wedi cael effaith sylweddol ar gymunedau yn Ardal Heddlu Gwent. Maent yn cael eu profi’n gyson a’n cael eu diweddaru fel bod asiantaethau yn medru ymateb yn effeithiol ac yn amserol.

## Pam Ein Bod Yn Bodoli

Wedi ei sefydlu gan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posib 2004, mae’r Fforymau Cydnerth Lleol yn brif fecanwaith ar gyfer cydweithio rhwng asiantaethau er mwyn sicrhau bod modd ymgymryd yn effeithiol â’r dyletswyddau yn y Ddeddf.

Mae’r dyletswyddau yma yn cynnwys

- Asesu’r risg o argyfyngau yn digwydd a’n defnyddio hyn er mwyn llywio unrhyw gynllunio wrth gefn.
- Paratoi cynlluniau wrth gefn.
- Paratoi trefniadau Rheoli Parhad Busnes.
- Paratoi trefniadau fel bod gwybodaeth ar gael i’r cyhoedd am faterion diogelu sifil a chynnal trefniadau er mwyn rhybuddio, hysbysu a chynghori’r cyhoedd os oes yna argyfwng.
- Rhannu gwybodaeth gydag ymatebwyr lleol er mwyn gwella’r gwaith o gydlynu.
- Cydweithio ag ymatebwyr lleol er mwyn gwella’r gwaith o gydlynu ac effeithlonrwydd, a
- Darparu cyngor a chymorth i fusnesau a mudiadau gwirfoddol am Reoli Parhad Busnes (awdurdodau lleol yn unig).

## Beth Yw Argyfwng ?

Mae’r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posib (2004) yn diffinio argyfwng fel:

- Digwyddiad neu sefyllfa sydd yn bygwth gwneud difrod difrifol i les dynol mewn lle yn y Deyrnas Unedig.
- Digwyddiad neu sefyllfa sydd yn bygwth gwneud difrod difrifol i amgylchedd yn y Deyrnas Unedig
- Rhyfel neu derfysgaeth sydd yn bygwth gwneud difrod difrifol i ddiogelwch y Deyrnas Unedig.

Mae’r holl ymatebwyr yng Ngwent yn gweithio yn unol gyda set o amcanion cyffredin, sydd yn helpu:

- Achub bywydau
- Lleddfu unrhyw ddioddefaint
- Osgoi’r argyfwng rhag gwaethygu
- Diogelu’r seilwaith ac eiddo
- Hwyluso unrhyw ymchwiliadau troseddol a’r broses farnwrol os oes angen
- Adfer normalrwydd cyn gynted ag sydd yn bosib

## Proffil o Ardal Gwent

Mae FfCLI Gwent yn gyfrifol am yr ardal sydd yn rhan o Sir Gwent.  Mae'n cyfateb i'r un ardal ddaearyddol â Heddlu Gwent ac wedi ei rhannu'n bum ardal awdurdod unedig – Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Mae daearyddiaeth FfCLI Gwent yn amrywiol a'n cynnwys ardaloedd gwledig, canolfannau trefol a rhannau mwyaf dwyreiniol cymoedd De Cymru.

Mae'r boblogaeth wedi cynyddu yn sgil y myfyrwyr prifysgol a'r nifer sylweddol o ymwelwyr sydd yn ymweld, neu'n sgil ei leoliad strategol rhwng Lloegr a Chymru, yn teithio drwy'r ardal bob blwyddyn.

Rhai ffeithiau a ffigyrau:

Mae ardal Gwent yn 612 o filltiroedd sgwâr – tua 7.6% o ardal Cymru gyfan.

| Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|
| 42 | 108 | 340 | 73 | 49 |

Poblogaeth a amcangyfrifir Gwent yw 594,164, sef tua 19% o boblogaeth gyfan Cymru.

| Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|
| 69,862 | 181,075 | 94,590 | 154,676 | 93,961 |

Mae 275,882 o aneddiadau yng Ngwent, sef tua 18.2% o'r holl aneddiadau yng Nghymru.

| Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|
| 33,663 | 81,837 | 44,499 | 72,325 | 43,558 |



Mae **Blaenau Gwent** yn cael ei ddiffinio gan ochrau mynydd uchel  sy'n rhannu'r tri phrif dyffryn. Maent yn gartref i  drefi a phentrefi sydd yn rhoi ymdeimlad prysur a threfol ond mae Blaenau Gwent yn wledig. Yn ddiweddar, mae'r ardal wedi profi gwelliannau strwythurol ac amgylcheddol sylweddol yn dilyn buddsoddiad cyfalaf sylweddol, a mwy o lastir wrth i'r dyffryn ddygymod gyda'r difrod sylweddol  a achoswyd yn gan y diwydiannau hanesyddol.

Mae **Caerffili** yn ardal sydd yn ymestyn o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y goledd, i Gaerdydd a Chasnewydd yn y de. Mae wedi ei ffurfio gan ddyffrynnoedd y tair afon, y Rhymni, Sirhowi a'r Ebwy ac yn gyfuniad o gymunedau trefol a gwledig. Mae tri chwarter o'r fwrdeistref sirol yn cael ei defnyddio ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae 5 prif ganolfan - Caerffili, Coed-duon, Rhisga, Bargoed ac Ystrad Mynach. Maent yn ganolfannau ar gyfer swyddi, manwerthu a gwasanaethau.

Mae **Sir Fynwy** yn wledig gan fwyaf ac yn dirwedd amrywiol sydd yn ymestyn o arfordir  Lefelau Gwent yn y de a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd. Y prif setliadau yw'r Fenni, Cas-gwent, Trefynwy, Cil-y-coed, Brynbuga a Magwyr/Gwndy, gyda thua hanner y boblogaeth yn byw mewn ardaloedd trefol.  Mae natur wahanol y setliadau yn deillio o'r trefi marchnad a phentrefi  a'u perthynas â'r ardaloedd gwledig cyfagos.

Dinas **Casnewydd** yw'r drydedd ganolfan drefol fwyaf yng Nghymru. Wedi ei lleoli ar lannau'r Afon Wysg ac aber yr Afon Hafren, mae'n ddinas aml-ddiwylliedig, gyda diwydiannau traddodiadol ochr yn ochr gyda'r sectorau electronig a gwasanaethau ariannol. Mae'n ardal wastad gydag ambell ardal uchel a'n cynnwys mannau gwledig helaeth y tu hwnt i'r canol sydd yn llawn adeiladau. Rhoddwyd statws dinas i Gasnewydd yn 2002 a chynhaliwyd y Cwpan Ryder yn 2010 a chyfarfod NATO yn 2014.

**Torfaen** yw rhan fwyaf dwyreiniol o ddyffrynnoedd trefol  'Gwent'. Mae'r ardal yn ymestyn o Flaenau'r Cymoedd yn y goledd i gyntedd yr M4 yn y de gyda thri phrif setliad, Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân sy'n unigryw fel yr unig Dref Newydd yng Nghymru, a ddyfarnwyd yn 1949.  Mae'r bwrdeistref sirol yn cynnwys Safle Treftadaeth y Byd ym Mlaenafon, sef y gwaith haearn gorau o'r 18fed ganrif. Mae nifer o rannau deheuol y sir o gwmpas Cwmbrân, sydd â'r boblogaeth uchaf.

# Risgiau

## Mae'r Gofrestr Risgiau Cymunedol yma yn cynnwys y risgiau hynny sy'n meddu ar y tebygolrwydd a'r potensial uchaf i gael effaith sylweddol ar gymunedau yng Ngwent.

Mae'r ystod o risgiau yr ydym yn asesu yn amrywiol ac mewn nifer o ffurfiau. Mae rhai o'r rhain yn gyfredol ac angen ymateb brys, tra bod eraill yn debygol o ddigwydd a'n meddu ar y potensial i gael yr effaith fwyaf ar drigolion a busnesau os ydynt yn digwydd.

Nid oes unrhyw asesiad risg yn medru adnabod ac asesu pob risg bosib ac mae risgiau na sydd wedi eu rhagweld yn medru dod i'r amlwg neu mae risgiau sydd wedi eu hadnabod yn dod yn fyw mewn ffyrdd gwahanol neu ffyrdd na sydd wedi eu rhagweld.

## Beth yw'r Gofrestr Risgiau Cymunedol a sut mae'n cael ei chreu?

Mae dyletswydd statudol ar yr holl Fforymau Cydnerth Lleol i baratoi a chyhoeddi Cofrestr Risgiau Cymunedol.

Mae Cofrestr Risgiau Cymunedol FfCLl Gwent yn ganlyniad i'r broses sydd wedi ei chynnal gan bartneriaid aml-asiantaeth Gweithgor Asesu Risgiau FfCLl Gwent wrth asesu tebygolrwydd ac effaith ystod o beryglon sydd yn meddu ar y potensial i darfu'n sylweddol ar drigolion, cymunedau ac amgylchedd Gwent.

Mae'r peryglon yma yn medru dod yn fyw mewn ffyrdd gwahanol, ac fel ein bod wedi profi gyda'r pandemig coronafeirws, yn medru tarfu ar lefel ryngwladol, genedlaethol neu leol.

Yn ogystal ag asesu peryglon, mae FfCLl Gwent hefyd yn asesu'r canlyniadau a ddaw o'r bygythiadau posib sydd yn cael eu hachosi gan ddigwyddiadau maleisus. Fodd bynnag, mae sensitifrwydd y wybodaeth sydd yn cefnogi'r asesiadau yma yn golygu nad oes modd i ni gyhoeddi'r manylion yma.

Mae canlyniadau'r asesiadau risg yma yn cael eu defnyddio er mwyn llywio ein lefel o barodrwydd ar gyfer ymateb i'r canlyniadau a ddaw o'r peryglon a'r bygythiadau sydd wedi eu nodi ac maent yn cynorthwyo i leihau'r risgiau lle bo'n bosib. Mae hyn yn medru cynnwys creu cynlluniau aml-asiantaeth effeithiol a'r asiantaethau yn hyfforddi ac ymarfer ar y cyd.

Mae'r ffurflenni Cofrestr Risgiau Cymunedol yn un agwedd o waith y bartneriaeth wrth baratoi ar gyfer argyfyngau a rhannu gwybodaeth er mwyn medru gwella dygnwch cyffredinol ardal Gwent.

## Trosolwg o'r Risgiau Cyfredol

Wrth i ni symud i flwyddyn newydd, rydym eisoes yn profi effeithiau sawl un o'r risgiau sydd wedi eu nodi yn y ddogfen.

Er enghraifft, rydym dal yn profi galw sylweddol ar draws y GIG a Gofal Cymdeithasol, yn sgil niferoedd uchel o gleifion yn mynd at wasanaethau gofal cynradd yn sgil feirysau anadlol, yn enwedig y ffliw a Covid-19. Mae'r cynnydd sylweddol mewn feirysau anadlol hefyd yn achosi lefelau uchel o salwch ymhlith staff, sydd yn gosod pwysau pellach ar wasanaethau lleol sy'n cael eu darparu gan bartneriaid dygnwch lleol.

Rydym hefyd wedi profi'r effeithiau ar draws ein cymunedau a'n busnesau yn sgil y tywydd garw diweddar, gweithredu diwydiannol a'r cynnydd o ran costau byw.

Mae'r risgiau yma yn wahanol iawn ond pan eu bod yn digwydd ar yr un pryd, maent yn medru cael effaith gronnol sylweddol a'n creu pwysau penodol a galw cynyddol am wasanaethau sydd yn effeithio ar ein cymunedau a'n darparwyr gwasanaeth.

## Beth ydym yn gwneud yng Ngwent?

Fel FfCLI, mae ein partneriaid yn cydweithio lle bo'n bosib er mwyn cefnogi'r galw cynyddol a'r heriau a gyflwynir gan y risgiau yma, fel bod modd parhau i ddarparu gwasanaethau critigol a lleihau unrhyw aflonyddwch.

Drwy'r strwythurau FfCLI, rydym yn dod ynghyd er mwyn sicrhau bod ein hymwybyddiaeth gyfredol o'r sefyllfa yn cael ei rhannu a'r risgiau a'u heffeithiau.

Rydym yn datblygu ac yn rhannu negeseuon cyhoeddus allweddol fel bod ein cymunedau yn cael eu hysbysu o'r risgiau cyfredol a'n derbyn y cyngor priodol.

Rydym yn parhau i gynnal, profi ac ymarfer ein cynlluniau a gweithdrefnau aml-asiantaeth a'n rhai unigol fel mudiadau fel ein bod yn barod i ymateb ac adfer yn dilyn digwyddiadau.

## Beth allwch chi wneud?

Fel mudiadau, cyflogwyr ac unigolion, rydym angen gweithio gyda'n gilydd er mwyn cadw ein cymunedau yn ddiogel yn ystod y cyfnodau heriol yma a helpu diogelu a chynorthwyo ein gwasanaethau allweddol. Mae nifer o bethau yr ydym oll yn medru gwneud gan gynnwys:

- Trefnu eich bod yn cael eich brechiadau Ffliw a Covid-19, gan gynnwys y pigiad atgyfnerthu pan yn cael eich gwahodd.
- Ffonio 999 neu ddod i'r Uned Ddamweiniau ac Argyfwng Brys yn unig pan fydd argyfwng difrifol fel bod pawb sydd angen yn medru derbyn sylw ynghynt.
- Y cam cyntaf yw mynd i wefan GIG 111 Cymru ar gyfer unrhyw gyngor a gwybodaeth iechyd, gan gynnwys Strep A.
- Siarad gyda fferyllydd, Meddyg Teulu neu Uned Mân Anafiadau. Mae manylion am eich gwasanaeth agosaf ar gael ar wefan GIG 111.
- Bod yn ymwybodol o sut i gael mynediad at y Gwasanaeth GIG mwyaf priodol ar gyfer eich anghenion.
- Parhau'n ymwybodol o'r rhagolygon tywydd a dilyn unrhyw rybuddion.
- Cymryd gofal ychwanegol yn ystod y tywydd oer er mwyn osgoi disgyn a chael damweiniau ar y ffordd.
- Gofalu am deulu, ffrindiau a chymdogion sydd yn fregus iawn.

**Mae mwy o wybodaeth ar gael yma:**

- GIG 111 Cymru
- Cadw Cymru'n Ddiogel
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Hafan – Y Swyddfa Dywydd

Mae gwybodaeth a chyngor ychwanegol ar gael o dan yr adran risgiau penodol a 'Parodrwydd' yn y gofrestr hon.

# Afiechydon Heintus Dynol

**Mae afiechydon heintus ymhlith dynion yn medru cymryd nifer o ffurfiau, gyda rhai  fel COVID-19 yn meddu ar y potensial i gael effaith sylweddol ar iechyd cyhoeddus.**


Mae ambell frigiad o achosion o afiechydon heintus dynol sy'n medru cael eu 'rheoli' yn ehangu yn araf ac yn fwy hawdd eu hoedi neu'u hatal.

Yn anffodus, mae rhai yn arwain at bandemig sydd yn medru heintio nifer o bobl dros ardal ddaearyddol fawr yn gyflym ac achosi mwy o salwch a marwolaethau  mewn cyfran sylweddol o'r boblogaeth. Mae pandemig yn cael ei ddiffinio fel haint na sydd wedi ei weld o'r blaen ac nid oes imiwnedd naturiol. Mae'n haint sydd yn effeithio, yn lledaenu'n hawdd ac yn goroesi mewn bodau dynol.

Fel i ni weld, yn wahanol i feirws y ffliw, mae pandemig yn medru digwydd unrhyw bryd ac mewn un ton neu fwy.

## Canlyniadau posib

- Llawer o bobl wedi eu heffeithio – hyd at hanner poblogaeth y DU, gyda'r potensial i arwain at nifer uwch o farwolaethau nag arfer.
- Gorbryder cyhoeddus sylweddol
- Galw cynyddol yn arwain at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o dan bwysau
- Pobl fregus mewn mwy o risg
- Lefelau uchel o absenoldeb ymhlith staff sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol




- Arferion dyddiol yn cael eu heffeithio
- Addysg yn cael ei tharfu
- Busnesau'n cau, a hyn yn effeithio ar yr economi

## Beth ydych yn medru gwneud?

- Dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Llywodraeth
- Cadw'n iachus – ffordd o fyw iachus sydd yn medru helpu amddiffyn yn erbyn ffliw a salwch arall
- Nodi ffrind ffliw – rhywun sydd yn medru casglu eich meddyginiaeth, bwyd a chyflenwadau eraill sy'n eich caniatáu i aros gartref pan yn sâl
- Yn gwybod a'n deall trefniadau ysgol eich plentyn ar gyfer y fath faterion
- Os yn gymwys – EWCH AM EICH BRECHIAD FFLIW
- Hylendid –  gorchuddiwch eich ceg a'ch trwyn tra'n anadlu a golchwch eich dwylo bob tro
- Chwiliwch am gyngor a chyfarwyddyd gan y GIG a dilyn hyn

## Beth ydym yn gwneud yng Ngwent?

- Gweithio gyda'n gilydd er mwyn cefnogi'r galw cynyddol ar y GIG a gofal cymdeithasol
- Paratoi trefniadau er mwyn atal,  canfod a rheoli heintiau a'n gweithredu mesurau diogelu iechyd effeithiol ar draws Gwent
- Rheoli darpariaeth leol y brechiadau sydd newydd eu datblygu  unwaith eu bod ar gael
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fewn ein cymunedau a'n hyrwyddo mesurau rheoli heintiau effeithiol
- Rheoli nifer uwch nag arfer o farwolaethau
- Rheoli a datblygu cynlluniau ffliw pandemig aml-asiantaeth a'n sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu o'r digwyddiadau cyfredol a blaenorol

### Gwybodaeth bellwch sy'n ymwneud gyda'r ffliw pandemig:

Mae cyngor iechyd cyhoeddus ar gyfer afiechydon heintus dynol yn cael ei adolygu'n barhaus gan arbenigwyr.

Drwy ddilyn cyngor mudiadau iechyd cyhoeddus, rydym yn medru helpu amddiffyn ein hunain, ein teuluoedd a'n cymunedau.

**Mae gwybodaeth ar gael ar-lein:**

- Hafan – Iechyd Cyhoeddus Cymru (nhs.wales)

# Tywydd Garw

## Mae tywydd garw yn destun diddordeb drwy’r amser ac yn rhan o’n sgyrsiau dyddiol.

Mae’n dod mewn sawl ffurf, a hynny o wyntoedd cryfion a stormydd; eira trwm a dwfn; tymheredd sy’n rhewi, ia a chyfnodau crasboeth dros yr haf, sydd yn medru parhau am gyfnodau hir.

Dros y blynyddoedd nesaf, rydym yn debygol o weld y tymheredd a lefelau’r môr yn cynyddu, a chynnydd yn amlder a difrifoldeb y tywydd eithafol yn y DU. Mae rhagolygon y tywydd nawr yn medru rhoi rhybudd o’r rhan fwyaf o ddigwyddiadau cyn iddynt ddigwydd a’n cynnig cyngor.

Mae profiad yn dangos fod tywydd garw yn medru digwydd ar unrhyw adeg, achosi amryw o broblemau ac nid yw’n cymryd rhyw lawer i hyn gael effaith sylweddol ar ein bywydau bob dydd.

### Canlyniadau posib

- Aflonyddu ar drafnidiaeth, cyflenwadau a chyfathrebu
- Iechyd pobl fregus mewn peryg yn sgil tymheredd isel
- Peryg i fywyd yn sgil gwrthrychau sy’n cael eu lluchio gan wyntoedd cryfion a methiannau strwythurol
- Ysgolion ac adeiladau cyhoeddus yn cau
- Difrod i eiddo a seilwaith
- Busnesau a gwasanaethau yn cael eu gorfodi i gau neu atal eu gwaith
- Effaith ar gymunedau gwledig, anifeiliaid a



## Beth mae modd i chi wneud?

- Gwiriwch a gwrandewch ar y rhagolygon tywydd ac ystyried unrhyw rybuddion
- Peidiwch â theithio oni bai ei fod yn angenrheidiol; os oes angen i chi deithio, cynlluniwch o flaen llaw ac ewch â bwyd/dillad/blancedi ayyb gyda chi ayyb
- Ystyried a chynllunio sut y byddech yn ymdopi heb gyflenwadau hanfodol e.e. trydan neu ddŵr
- Ewch i weld perthnasau, pobl hŷn, pobl fregus a ffrindiau
- Cadwch yn dwym neu sicrhewch bod digon o ddŵr gennych os oes tymheredd gennych
- Dilynwch y cyngor a roddir i asiantaethau
- Sicrhewch bod yswiriant digonol gennych

## Beth ydym yn gwneud yng Ngwent?

- Cynnal cynlluniau aml-asiantaeth a mudiadau unigol wrth ymateb i ddigwyddiadau tywydd garw
- Gweithio gyda’n gilydd er mwyn cynnal gwasanaethau critigol a lliniaru ar unryw aflonyddu
- Monitro rhagolygon tywydd drwy’r flwyddyn a chynnig cyngor a chyfarwyddyd
- Cynllunio ar gyfer y gaeaf e.e. graeanu, clirio’r eira ayyb
- Ymgysylltu gyda chymunedau er mwyn datblygu dygnwch y gymuned
- Targedu cefnogaeth tuag at aelodau mwyaf bregus ein cymunedau

### Gwybodaeth bellach am dywydd garw:

Mae’r ‘*Severe Weather Warning Service*’ y Swyddfa Dywydd (NSWWS) yn ein rhybuddio am unrhyw dywydd garw.  Mae rhybuddion tywydd y Sywddfa Dywydd yn cynnwys lefel yr effaith sydd yn debygol yn sgil y tywydd garw a thebygolrwydd hyn yn digwydd.

Yn ogystal â’r rhybuddion tywydd presennol, mae gwybodaeth  gan y NSWWS a chanllaw o’r mathau o effeithiau sy’n medru cael eu hachosi gan y tywydd garw i’w gweld ar wefan y Swyddfa Dywydd drwy glicio ar y ddolen isod.

**Mae gwybodaeth ar gael ar-lein yma**

- Hafan – y Swyddfa Dywydd

# Llifogydd

**Mae llifogydd fel sydd wedi eu profi dros y blynyddoedd diwethaf wedi ein hatgoffa fod llifogydd yn parhau yn un o'r risgiau mwyaf ac sydd yn fwyaf tebygol  o ddigwydd yn ardal Gwent, ac mae miloedd  o gartrefi a busnesau ar draws y rhanbarth  yn medru cael eu heffeithio.**

Mae llifogydd yn medru cael eu hachosi gan sawl peth, gan gynnwys afonydd, yr arfordir a dŵr wyneb.

Dros y blynyddoedd nesaf, mae disgwyl i dymheredd y môr i gynyddu a bydd digwyddiadau tywydd garw yn digwydd yn fwy aml gan gynyddu'r tebygolrwydd o lifogydd yn y DU.

## Canlyniadau posib

- Cartrefi a busnesau o dan ddŵr
- Risg i fywydau, pobl ac anifeiliaid
- Difrod i eiddo, busnesau, tir amaethyddol, heolydd, gwasanaethau a seilwaith
- Gwacáu mewn argyfwng/trigolion ar ben eu hunain
- Cyfleustodau a thrafnidiaeth yn cael eu heffeithio
- Llygredd a halogi'r amgylchedd lleol
- Materion adfer hirdymor ar gyfer y sawl sydd wedi eu heffeithio






## Beth ydych yn medru gwneud?

- Dysgwch a ydych yn byw neu'n gweithio mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd a chofrestrwch os yn bosib  i dderbyn rhybuddion llifogydd am ddim
- Cadwch olwg ar y rhagolygon a'r rhybuddion tywydd
- Ystyriwch sut y byddech yn amddiffyn eich eiddo yn ystod llifogydd a bod yswiriant digonol gennych
- Peidiwch â mynd i mewn i'r llifogydd oni bai bod y gwasanaethau argyfwng yn dweud y dylech wneud hyn. Mae'n medru bod yn beryglus iawn a pheryglon cudd.
- Paratowch Gynllun Argyfwng Cartref neu Gynllun Llifogydd Personol (gweler yr adran 'Parodrwydd' yn y llyfryn)
- Nodwch y cymdogion, perthnasau bregus neu ffrindiau sydd angen cymorth yn eich grŵp llifogydd

## Beth ydym yn gwneud yng Ngwent?

- Cynnal, profi ac ymarfer cynlluniau aml-asiantaeth a'r mudiadau unigol ar gyfer ymateb i lifogydd.
- Monitro llifogydd, rhagolygon a chyhoeddi rhybuddion o lifogydd a hysbysu'r cyhoedd cyn gynted ag sydd yn bosib pan fydd yna risg o lifogydd.
- Adnabod pa feysydd sy'n medru cael eu heffeithio gan lifogydd a phwy sydd mewn risg
- Cynllunio strategol er mwyn amddiffyn ardaloedd sydd mewn risg a'n lliniaru ar unrhyw darfu
- Arolygu a chynnal y cwlfertau a gylis
- Darparu cyngor a chyfarwyddyd i gartrefi a busnesau am lifogydd

### Gwybodaeth bellach am lifogydd:

Mae yna amryw o declynnau a gwybodaeth ar gael i'ch helpu chi dderbyn gwybodaeth ac amddiffyn eich hun, teulu, eiddo a busnesau. Mae hyn yn cynnwys rhybuddion gan  **Gyfoeth Naturiol Cymru** gan fod y wefan yn cynnwys cyngor cyffredinol am lifogydd; pa rybuddion o lifogydd sydd mewn grym a sut i gofrestru ar eu cyfer; a'r **Fforwm Llifogydd Cenedlaethol** sydd yn elusen sydd yn cynnig, cynorthwyo a'n cynrychioli pobl sydd mewn peryg o lifogydd.

**Mae gwybodaeth ar gael ar-lein yma:**

- Hafan – Cyfoeth Naturiol Cymru
- Hafan – Fforwm Llifogydd Cenedlaethol

# Colli Seilwaith Critigol


**Mae seilwaith critigol yn disgrifio'r gwasanaethau gwahanol yr ydym yn dibynnu arnynt fel rhan o'n cymdeithas fodern ac yn hanfodol i sut ydym yn byw ein bywydau.**

Mae seilwaith critigol y DU yn cynnwys gwasanaethau fel gwasanaethau trydan, dŵr, nwy, olew, tanwydd, trafnidiaeth, cyfathrebu, bwyd, iechyd ac ariannol.

Yn ardal Gwent, rydym yn ddibynnol fel eraill ar y gwasanaethau critigol yma ac mae eu colli yn medru cael effaith sylweddol ar ein trigolion.

## Canlyniadau posib

- Tarfu ar wasanaethau hanfodol, busnesau a bywyd cartref arferol
- Pobl yn profi lefelau gwael o lanweithdra a diffyg dŵr yfed
- Cartrefi heb wres ac ychydig o fwyd a dŵr
- Gallu cyfyngedig i gadw bwyd yn oer neu wedi rhewi
- Risg cynyddol i bobl fregus
- Methu cael tanwydd o'r gorsafoedd llenwi
- Pobl yn methu cael arian o'r peiriannau arian parod neu'n prynu pethau gyda charden
- Telegyfathrebu cyfyngedig (gan gynnwys ffonau mudol)
- Aflonyddwch sifil




## Beth ydych yn medru gwneud?

- Gwybod ble mae mannau diffodd y cyfleustodau a sut i'w diffodd
- Nodi manylion cyswllt eich cwmnïau cyfleustodau a rhoi gwybod iddynt os oes yna broblemau
- Meddwl sut y byddech yn ymdopi heb y cyfleustodau allweddol, yn paratoi pecyn argyfwng gydag eitemau fel tortsh a radio sy'n medru cael eu weindio, bwyd mewn tiniau a dŵr yfed (gweler yr adran 'Parodrwydd' o'r llyfryn hwn)
- Mae'r gwasanaethau weithiau'n cael eu heffeithio heb rybudd. Os yw hyn yn digwydd, meddyliwch sut y gallwch baratoi e.e. llenwi'r bath gyda dŵr yfed
- Ewch i weld eich cymdogion a pherthnasau sy'n fregus er mwyn gweld a ydynt angen rhywbeth

## Beth ydym yn gwneud yng Ngwent?

- Gweithio gyda chwmnïau cyfleustodau er mwyn rheoli unrhyw ymyriadau os yn bosib
- Datblygu cynlluniau aml-asiantaeth er mwyn lliniaru unrhyw ymyriadau hirdymor i wasanaethau, gan gynnwys trefniadau parhad busnes
- Nodi unrhyw bobl fregus sydd angen cymorth ychwanegol os oes yna ymyriadau
- Gweithio gyda phartneriaid er mwyn nodi unrhyw wersi o ddigwyddiadau blaenorol er mwyn dysgu unrhyw wersi

### Gwybodaeth bellach am y seilwaith critigol:

Mae pob un o'r darparwyr cyfleustodau allweddol sydd yn gwasanaethu ardal Gwent yn cynnig cyngor a chymorth ar sut i roi gwybod am unrhyw gyflenwadau sydd wedi eu heffeithio a'r hyn y dylech wneud os yw hyn yn digwydd a'r rhifau cyswllt mewn argyfwng.

**Mae gwybodaeth ar gael ar-lein:**

- Hafan – y Grid Cenedlaethol
- Hafan- Dŵr Cymru
- Hafan - Wales & West Utilities

# Damweiniau Diwydiannol

**Mae yna sawl diwydiant yn ardal Gwent sydd yn storio neu'n defnyddio sylweddau sydd yn medru bod yn beryglus a'n medru cael effaith ar y bobl a'r amgylchedd petai yna ddamwain.**

Fodd bynnag, nid yw'r potensial ar gyfer y fath effaith sylweddol yn dod bob tro o ddamweiniau mewn safleoedd diwydiannol mawr.

Er enghraifft, os yw tân yn cynnwys silindrau asetylen fel sydd i'w gweld mewn sawl garej, gweithdai ayyb, mae gweithdrefnau ymateb o bosib yn gosod parth peryglus oddi amgylch y safle a bydd unrhyw un sydd yn byw o fewn y parth yn gorfod gadael tan ei fod yn ddiogel iddynt ddychwelyd.

## Canlyniadau posib

- Perygl I fywyd
- Materion iechyd cyhoeddus
- Difrod i eiddo a'r ardal leol
- Llygru'r amgylchedd lleol, cyrsiau dŵr a bywyd gwyllt
- Symud a gadael yr ardal sydd wedi ei heffeithio
- Effeithio ar gyfleustodau a chyflenwadau lleol a chenedlaethol
- Colledion economaidd ar gyfer y diwydiant sydd wedi ei effeithio a'r busnesau lleol
- Effaith adweithiol bosib ar ffermio a chynnyrch amaethyddol lleol





## Beth ydych yn medru gwneud?

- Dylech gadarnhau a ydych yn byw ger safle peryglus neu safle sy'n cael ei reoleiddio
- Os ydych yn clywed rhybudd am ddamwain, ewch tu mewn, caewch y drysau a'r ffenestri a gwrandewch ar y gorsafoedd radio lleol neu'r cyfryngau cymdeithasol am gyngor
- Paratowch ar gyfer gorfod gadael mewn argyfwng drwy baratoi bag o'r hyn sydd angen arnoch (ewch i'r adran 'Parodrwydd' yn y llyfryn hwn)
- Os ydych yn gorfod gadael, gwrandewch a dilynwch gyfarwyddiadau'r gwasanaethau argyfwng.

## Beth ydym yn gwneud yng Ngwent?

- Gweithio'n uniongyrchol gyda'r sawl sydd yn rheoli safleoedd COMAH a'n gweithio mewn partneriaeth baratoi cynllunio oddi ar y safle COMAH
- Datblygu ac ymarfer cynlluniau aml-asiantaeth er mwyn sicrhau bod yna ymateb effeithiol er mwyn ymateb a rheoli canlyniadau damweiniau diwydiannol
- Cynnal arolygon diogelwch tân a'n gweithio gyda safleoedd diwydiannol i leihau'r risg o ddamwain
- Nodi ffyrdd o gyfathrebu gyda'r cyhoedd a'n cynnig cyngor priodol

### Gwybodaeth bellach am ddamweiniau diwydiannol:

Mae busnesau sydd yn gwneud, storio neu'n defnyddio sylweddau peryglus fel rhan o'u gwaith yn medru effeithio ar iechyd pobl a'r amgylchedd yn cael eu rheoleiddio gan reoliadau a chyafwryddebau amrywiol.

Mae'r rhain yn cynnwys Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) 2016 (EPR) sydd yn golygu bod gweithredwyr yn gorfod sicrhau trwyddedau ar gyfer rhai cyfleusterau, cofrestru eraill fel rhai esempt a'n darparu goruchwyliaeth barhaus gan reoleiddwyr.

Mae rhai safleoedd diwydiannol yng Ngwent yn cael eu rheoleiddio gan Reoliadau *'Control of Major Accident Hazards'* (COMAH) ac wedi eu dylunio fel sefydliadau haen uchaf. Rhaid iddynt baratoi cynlluniau argyfwng gan gynnwys gwybodaeth am sut y maent yn mynd i amddiffyn pobl a'r amgylchedd a'n dweud wrth bobl os ydynt yn cael eu heffeithio.

**Mae gwybodaeth ar gael ar-lein yma:**

- Hafan – Cyfoeth Naturiol Cymru (EPR 2016)
- Hafan - HSE (COMAH)

# Clefyd Anifeiliaid

**Y mathau o glefyd anifeiliaid sydd yn cyflwyno'r risgiau mwyaf yw'r rhai hynny sydd yn fwyaf heintus ac yn achosi marwolaethau uchel ymhlith anifeiliaid.**

At hyn, mae yna glefydau anifeiliaid sydd yn medru lledaenu o anifeiliaid i ddynion, gan achosi salwch neu farwolaeth.

Mae profiad yn dangos bod clefyd anifeiliaid yn medru cael effaith ddifrifol ar ardal Gwent. Mae cyfyngiadau o ran symud a chludo anifeiliaid er mwyn sicrhau nad yw heintiau yn lledaenu hefyd yn medru niweidio dywedant gwledig a'r economi ehangach.

## Canlyniadau posib

- Risg i iechyd anifeiliaid
- Risgiau iechyd i bobl, yn enwedig gweithwyr sydd yn gweithio ag anifeiliaid
- Niwed i'r economi amaethyddol leol
- Gwaredu ar gyrff anifeiliaid marw ar raddfa eang
- Ffermwyr a gweithwyr fferm yn colli bywoliaeth
- Sgil-effaith hyn ar dwristiaeth a diwydiannau gwasanaeth
- Effaith seicolegol hirdymor a brofir gan ffermwyr term
- Cynnydd posib mewn costau bwyd i brynwyr




## Beth ydych yn medru gwneud?

- Cofrestru unrhyw anifeiliaid byw yr ydych yn berchen gyda Llywodraeth Cymru /APHA
- Mae'r perchnogion yn gyfrifol am iechyd a lles yr anifeiliaid yn eu gofal ac angen deall a darparu ar gyfer eu hanghenion corfforol a lles
- Cynnal ffyrdd da o atal a rheoli heintiau
- Hysbysu'r APHA cyn gynted ag sydd yn bosib o unrhyw amheuon o glefyd ymhlith anifeiliaid. Trafod eich pryderon gyda milfeddyg
- Brechu anifeiliaid os yn bosib
- Os oes yna haint, bydd angen dilyn unrhyw ganllawiau gan y Llywodraeth ac amddiffyn eich anifeiliaid ac atal yr haint rhag lledaenu.

## Beth ydym yn gwneud yng Ngwent?

- Mae gwasanaethau'r awdurdodau lleol a milfeddyg yn sgrinio a'n monitro iechyd anifeiliaid yn barhaus a'r ffordd y maent yn cael eu symud
- Datblygu gweithdrefnau ar gyfer cyflenwi ar lefel leol y cynlluniau clefyd anifeiliaid ecsotig a'r fframweithiau iechyd anifeiliaid
- Codi ymwybyddiaeth o glefydau ymhlith ffermwyr a gweithwyr fferm
- Derbyn a monitro rhybuddion clefyd anifeiliaid yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)

### Gwybodaeth bellach am glefyd anifeiliaid:

Yr asiantaeth arweiniol ar gyfer iechyd a chlefyd anifeiliaid yw'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). Mae'r APHA yn asiantaeth weithredol sydd yn cael ei noddi gan DEFRA, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Alban.

**Mae gwybodaeth ar gael ar-lein yma:**

- Hafan – Llywodraeth Cymru (Iechyd Anifeiliaid)
- Hafan – Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

# Digwyddiadau Trafnidiaeth

**Mae'r rhan fwyaf ohonom yn ddibynnol ar ryw ffurf o drafnidiaeth, boed yn teithio i ac o'r gwaith, mynd ar deithiau pwysig neu'n derbyn gwasanaeth hanfodol.**

Felly, pan fydd trafnidiaeth yn cael ei effeithio, mae'r effeithiau yn bellgyrhaeddol ac hyd yn oed yn medru peryglu bywyd.

Mae unrhyw darfu yn medru arwain at ddamweiniau; tywydd difrifol fel eira a llifogydd; difrod strwythurol i seilwaith fel pontydd a thwneli a gweithredu diwydiannol.

## Canlyniadau posib

- Gwasanaethau trafnidiaeth yn cael eu hoedi neu ganslo
- Pobl yn cael eu gadael mewn cerbydau a hybiau trafnidiaeth
- Risg i fywyd
- Sgil-effaith difrifol ar lwybrau dargyfeirio a rhwydweithiau trafnidiaeth lleol
- Methu mynd i'r gwaith, ysgol neu apwyntiadau pwysig
- Busnesau/gwasanaethau yn cael eu heffeithio gan gyflenwadau sydd wedi eu hoedi neu fethu
- Effaith amgylcheddol os yw deunydd peryglus yn cael ei ryddhau i'r amgylchedd lleol



## Beth ydych yn medru gwneud?

- Cyn dechrau ar y daith, cadarnhewch a oes unrhyw beth wedi ei darfu gan wneud trefniadau amgen os yn bosib. Osgowch unrhyw deithiau dianghenraid mewn tywydd garw
- Sicrhewch bod yna becyn argyfwng gyda chi yn y car neu eitemau sylfaenol wrth i chi deithio. Efallai na fyddwch yn rhan o'r digwyddiad, ond mae'r aflonyddwch yn medru parhau am oriau
- Pan yn gyrru, cydymffurfiwch gyda rheolau' ffyrdd, y terfynau cyflymder a gyrrwch yn ddiogel. Dylech ymgyfarwyddo gyda'r gweithdrefnau brys
- Sicrhewch bod eich cerbyd yn addas ar gyfer y ffordd ac mewn cyflwr diogel

## Beth ydym yn gwneud yng Ngwent?

- Datblygu ac ymarfer cynlluniau aml-asiantaeth er mwyn rheoli effaith unrhyw ddigwyddiadau a tharfu ar drafnidiaeth
- Mae'r holl asiantaethau priffyrdd perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod yr holl ffyrdd yn hygyrch yn ystod unrhyw darfu
- Gweithio gyda chwmnïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn gofalu am bobl sy'n cael eu heffeithio gan ddigwyddiadau trafnidiaeth
- Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd adeg digwyddiadau
- Monitro rhagolygon tywydd er mwyn sicrhau ein bod yn barod i ddelio gydag unrhyw ddigwyddiadau sy'n cael eu hachosi gan y tywydd

### Gwybodaeth bellach am ddigwyddiadau trafnidiaeth:

Mae gwybodaeth gyfredol am draffig a thrafnidiaeth gyhoeddus ar gael.

At hyn, mae cyngor teithio pellach a'r camau ymarferol yr ydych yn medru cymryd ar gael ar wefan y Swyddfa Dywydd.

**Mae gwybodaeth ar gael ar-lein yma:**

- Hafan – Traffig Cymru
- Hafan - Traveline.Cymru
- Hafan – Trafnidiaeth Cymru
- Hafan – y Swyddfa Dywydd (Cyngor Teithio)

# Bygythiadau Maleisus

## Er bod y tebygolrwydd o ymosodiadau maleisus yn brin, mae'r her o ddelio ag ymdrechion bwriadol i aflonyddu ar ein ffordd o fyw yn aml yn y newyddion.

Mae bygythiadau maleisus yn grwpiau o risg sydd yn cynnwys gweithredoedd fel terfysgaeth a throseddau sydd wedi eu trefnu ac maent wedi eu nodi fel themâu tebyg i ymosodiadau ar lefydd prysur; ymosodiadau ar drafnidiaeth a seilwaith critigol; ac ymosodiadau seibr.

### Canlyniadau posib

- Marwolaethau  a niwed corfforol/seicolegol
- Difrod i eiddo a seilwaith
- Effeithio ar seilwaith critigol a gwasanaethau hanfodol a'n gosod pwysau ychwanegol ar fudiadau sydd yn ymateb
- Gwerthuso a gofalu am y sawl sydd yn yr ardaloedd sydd wedi eu heffeithio
- Amharu ar yr economi genedlaethol a lleol
- Colli gwybodaeth bersonol neu gorfforaethol
- Problemau adfer hirdymor ar gyfer y sawl sydd wedi eu heffeithio




## Beth ydych yn medru gwneud?

- Mae mudiadau sy'n ymateb yn gweithio'n galed iawn i'n cadw ni'n ddiogel o'r bygythiadau maleisus. Mae rhan o'r gwaith yn cynnwys paratoi gwybodaeth hanfodol sydd yn amlinellu'r rôl y mae unigolion yn medru chwarae  wrth ymateb i ymosodiad neu fygythiad maleisus.  Tra ei fod yn annhebygol y byddwch yn rhan o ddigwyddiad terfysglyd, mae'n bwysig paratoi a gwybod sut i amddiffyn eich hun. Sicrhewch eich bod yn gwybod sut i amddiffyn eich hun. Dylech fod yn gyfarwydd gyda'r cyngor sydd ar gael a'r ymgyrchoedd cyhoeddus presennol
- Gan fod y cyhoedd a'r busnesau yn cael eu targedu'n aml gan ymosodiadau seibr, drwy e-byst a'n ceisio dwyn hunaniaeth, mae'n bwysig eich bod yn gwybod sut i amddiffyn eich hun

## Beth ydym yn gwneud yng Ngwent?

- Asesu'r risg a'r canlyniadau lleol a ddaw o fygythiadau maleisus yn unol gyda chyngor Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU
- Datblygu ac ymarfer cynlluniau aml-asiantaeth er mwyn sicrhau ymateb effeithiol a'n rheoli canlyniadau ymosodiadau maleisus
- Gweithredu strategaeth gwrth-derfysgaeth  y Llywodraeth (CONTEST) ar lefel leol
- Rhoi cyngor i'r cyhoedd a busnesau a chefnogi ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y Llywodraeth
- Annog yr holl fudiadau FfCLl i adolygu ac arddangos os yn bosib bod strategaethau dygnwch seibr ganddynt

### Gwybodaeth bellach am fygythiadau maleisus:

Mae gwefan y *'National Counter Terrorism Security Office'* (NCTSO) yn cynnig gwybodaeth am yr ymgyrchoedd cyhoeddus diweddaraf am strategaeth gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU.

Er mwyn delio ag ymosodiadau seibr, mae gwefannau 'Are you Cyber Aware?' a 'Cyber Essential' y Ganolfan Diogelwch Seibr Cenedlaethol  yn cynnig cyngor i'r cyhoedd a busnesau ar sut i baratoi ar gyfer y rhan fwyaf o ymosodiadau seibr.

**Mae gwybodaeth ar gael ar-lein:**

- Hafan - NCTSO (Run-Hide-Tell)
- Hafan - NCSC (Seibr-Effro)
- Hafan - NCSC (Hanfodion Seibr)

# Parodrwydd - eich cartref

**Yn ystod argyfwng, mae'n bwysig eich bod wedi paratoi, nid oes ots ble ydych. Mae llawer o bethau y mae modd eu gwneud i baratoi'ch hun, eich teulu, busnesau ar gyfer argyfyngau o ddigwyddiadau sy'n tarfu.**

Mae cymryd rhai camau syml yn medru helpu lleihau effaith yr argyfwng ar eich cartref a'ch teulu. Nid oes rhaid cael gwybodaeth arbenigol, dim ond ychydig funudau o'ch amser chi a'ch teulu. Y cam cyntaf yw paratoi '**Cynllun Argyfwng Cartref'**.

Er na fyddwch byth yn gorfod ei ddefnyddio o bosib, mae'n ffordd ardderchog i baratoi'ch hun os oes yna argyfwng. Wrth baratoi eich cynllun, dylech gynnwys eich teulu cyfan wrth drafod yr hyn i'w gynnwys. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn ymwybodol bod cynllun yn bodoli a'r hyn i'w wneud. Nid oes ffordd gywir neu anghywir o baratoi 'Cynllun Argyfwng Cartref', ond dyma rai pwyntiau i'w hystyried:

- Ystyriwch y math o argyfyngau sy'n bosib – eira, llifogydd, colli ynni.
- Ystyriwch sut y mae argyfwng yn medru effeithio ar arferion y teulu – tywydd garw yn effeithio ar y daith i'r ysgol.
- Os ydych yn gorfod gadael eich cartref, pa drefniadau sydd gennych i ofalu am eich anifeiliaid anwes?
- Cytunwch ar nifer o bwyntiau cyfarfod amgen ar gyfer eich teulu os nad ydych yn mynd adref. Trefnwch sut y bydd eich teulu yn aros mewn cysylltiad mewn argyfwng.



Dylech chi a'ch teulu fod yn gyfarwydd â sut i ddiffodd y cyflenwadau nwy, trydan a'r dŵr i'ch cartref.

- Os ydych yn gorfod aros yn eich cartref am gyfnod o amser neu os ydych yn colli ynni, dŵr ayyb, beth fyddai angen arnoch?
- Sicrhewch fod eich yswiriant cartref yn gyfredol.
- Dylech gael copïau ychwanegol o ddogfennau allweddol fel dogfennau yswiriant, tystysgrifau geni ayyb. Sut fyddech yn cael gafael arnynt?
- A oes aelodau o'ch teulu yn fregus – a fyddant angen help ychwanegol mewn argyfwng?
- Beth am eich cymdogion – a ydynt yn fregus neu'n anabl? A allech chi eu helpu?

Gydag amser, rydych yn gwneud newidiadau i'ch cartref neu mae eich amgylchiadau teuluol yn newid. Dylech adolygu eich Cynllun Argyfwng Cartref a'i ddiweddaru os yn bosib.

## 'Pecyn Argyfwng' Cartref

Efallai y bydd rhai argyfyngau yn golygu bod angen i chi aros yn eich cartref am gyfnod o amser a'ch bod hefyd yn colli cyflenwadau ynni neu ddŵr. Mae paratoi 'Pecyn Argyfwng' Cartref yn medru sicrhau eich bod chi a'ch teulu yn barod i ddelio gyda'r rhan fwyaf o argyfyngau.

Wrth baratoi 'Pecyn Argyfwng' Cartref, dylai'r eitemau canlynol fod ar eich rhestr:

- Tortsh neu radio sy'n defnyddio batris neu'n bosib eu weinidio
- Canhwyllau a matsis, cyflenwad o fatris sbâr
- Poteli ffres o ddŵr, bwyd mewn tiniau (peidiwch anghofio teclyn i agor y tiniau)
- Dillad twym
- Blancedi (mae bagiau cysgu yn opsiwn da)
- Meddyginiaeth bersonol a theuluol; Cymorth Cyntaf
- Rhestr o rifau ffôn symudol, fel teulu a ffrindiau; ysgol y plant; Meddyg Teulu; milfeddyg; cyflenwyr cyfleustodau; cwmni yswiriant.

## Gadael eich cartref mewn argyfwng

Yn anffodus, bydd rhai argyfyngau yn golygu bod angen i'r cyhoedd, am resymau iechyd a diogelwch, i adael tra bod y gwasanaethau brys yn delio gyda'r digwyddiad.

Gobeithio na fydd hyn byth yn digwydd i chi ond os yw'n digwydd, mae'n bwysig eich bod yn gwrando ar y cyngor gan y gwasanaethau brys gan adael mor gyflym a phwyllog ag sydd yn bosib.

Hefyd, os oes amser gennych

- Diffoddwch y cyflenwadau trydan, nwy a dŵr, tynnwch y plygiau allan a dylech gloi'r holl ddrysau a ffenestri
- Ewch â'r eitemau sydd yn eich 'Pecyn Argyfwng' gan gynnwys:
  - allweddi (car a chartref)
  - arian a chardiau credyd
  - ffôn mudol a gwefrydd
- Os ydych yn gadael yn y car, gwiriwch ac ystyriwch yr amodau gyrru cyn dechrau gan ei fod yn rhy beryglus o bosib (e.e. llifogydd, eira trwm). Os ydych yn gadael yn y car, ewch â boteli dŵr a blancedi.
- Ewch â'ch anifeiliaid anwes (gyda thenynnau priodol)
- Gwrandewch ar y radio lleol ar gyfer cyngor a chyfarwyddiadau
- Dylech ddweud wrth y gwasanaethau brys sydd yno ble ydych wedi mynd a sut i gysylltu gyda chi.
- Rhowch wybod i berthnasau, na sy'n rhan o'r argyfwng, ble ydych yn mynd er mwyn atal unrhyw bryder diangen.

## Dychwelyd i'ch Cartref ar ôl Argyfwng

Gwrandewch ar y cyngor gan y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a chwmnïau cyfleustodau am unrhyw gamau penodol y mae'n rhaid i chi gymryd ar ôl mynd adref.

# Parodrwydd – eich cymuned




**Mae argyfyngau yn medru digwydd ar raddfa eang. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi profi eira trwm, llifogydd, cyfleustodau yn methu ac ymosodiadau terfysgaeth.**

Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r rhain ac argyfyngau eraill yn dangos fod cymunedau sydd wedi paratoi ar gyfer argyfyngau mewn sefyllfa well i ddelio ag effeithiau'r argyfyngau hynny.

Mae mesurau dygnwch yn medru cynnwys trefnu pwynt cyswllt o fewn y gymuned i dderbyn rhybuddion a negeseuon gan y gwasanaethau brys, Cyfoeth naturiol Cymru ac awdurdodau lleol, a gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu 'Cynllun Dygnwch Cymunedol'.

### Pam fod Cynllun Dygnwch Cymunedol gennych?

Pwrpas dygnwch cymunedol yw annog pobl i gynllunio a pharatoi ymateb hunangymorth o fewn cymuned sydd wedi ei heffeithio gan argyfwng. Yn sgil maint a/neu natur yr argyfwng, mae'r ymateb arferol sy'n cael ei ddarparu gan wasanaethau argyfwng a'r awdurdodau lleol yn medru cael ei oedi. Ar y fath achlysuron, mae'r hyn y mae aelodau o'r gymuned leol yn gwneud i gynorthwyo ei gilydd yn medru helpu.

### Ble mae modd derbyn y gwybodaeth?

Cysylltwch gyda'ch cyngor cymuned, asiantaeth gwirfoddol leol ac adrannau cynllunio brys/argyfyngau sifil yr awdurdod lleol, er mwyn derbyn mwy o wybodaeth. Mae modd i chi ofyn am y cynlluniau cymdogion da sydd ar waith yn eich ardal a/neu sut ydych yn medru gwirfoddoli er mwyn helpu'r cymunedau.




# Parodrwydd – eich busnes

**Os ydych yn berchen neu'n gyfrifol am fusnes neu fudiad, a ydych wedi ystyried effeithiau yr argyfyngau allanol? Os felly, a oes cynllun parhad busnes gennych?**

Mae cynlluniau parhad busnes cyn bwysiced i gwmnïau bach ag ydynt i gwmnïau mawr. Mae cynllun parhad busnes yn medru gwneud gwahaniaeth rhwng cadw a cholli eich busnes.

## Beth yw parhad busnes?

Mae parhad busnes yn ymwneud â sicrhau bod eich busnes neu fudiad wedi paratoi ar gyfer argyfwng.

- Sut fyddech yn parhau i weithredu?
- A ydych yn darparu gwasanaeth critigol i'ch gwasanaeth?
- A fyddai'n 'fusnes fel arfer'?

Mae meddu ar gynllun sydd wedi ei brofi yn helpu sicrhau bod eich busnes neu fudiad yn cael eu tarfu cyn lleied ag sydd yn bosib a'n parhau i weithredu.

## Pam fod parhad busnes yn bwysig?

Heb gynllunio ar gyfer parhad busnes, mae argyfwng naturiol neu sydd wedi ei achosi gan rywun, yn medru arwain at: -

- Eich busnes yn methu
- Colli incwm
- Colli enw da a/neu colli cwsmeriaid
- Cosbau ariannol, cyfreithiol a rheoleiddio
- Materion adnoddau dynol
- Effaith ar yr yswiriant



## Rhai risgiau busnes y dylech gynllunio ar eu cyfer:

Os nad ydych yn medru darparu gwasanaethau fel rhan o gontract, pa fath o gosbau fyddech yn wynebu?

A fyddai eich gwasanaethau critigol yn medru parhau yn ystod:-

- Colli ynni am 24 awr neu am gyfnod hirach?
- Sut fyddai eich busnes yn gweithio heb gyfrifiaduron neu delegyfathrebu am ddiwrnod, wythnos a mis
- Pa fath o wasanaethau critigol fyddai'n cael eu heffeithio petai eich adeilad yn gorfod cael ei wacáu am wythnos a bod dim modd i chi gael mynediad i'r adeilad am wythnos? Neu fis?
- Faint o staff sydd angen arnoch i wneud tasgau critigol a sut y byddech yn eu lletya?
- A oes adeilad arall ar gael? A yw'n ddigonol? Staff yn gweithio gartref?
- Beth fyddai'n digwydd petai chwarter o'ch staff yn absennol yn sgil pandemig ffliw?
- Pa mor hir fyddech yn medru ymdopi heb feddalwedd neu offer swyddfa arbenigol a faint o amser fyddai'n cymryd i ail-lenwi'r stoc?

Dylai eich cynllun ateb yr holl gwestiynau uchod ac wedi ei deilwra i fod yn addas i'ch busnes.

## Beth yw rôl Fforwm Cydnerth Lleol Gwent?

O dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posib 2004, mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i roi cyngor a chymorth i fusnesau a mudiadau gwirfoddol am reoli parhad busnes. Er nad yw awdurdod lleol yn medru paratoi eich cynllun ar eich rhan (chi sy'n nabod eich busnesau a phrosesau critigol orau), mae'n medru cynnig cyngor a chymorth drwy roi manylion am wefannau defnyddiol a darllen pellach. At hyn, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Grŵp Argyfyngau Sifil yr Awdurdodau Lleol wedi paratoi pamffled Parhad Busnes sydd yn cynnig cyngor a chanllawiau ar gyfer y sawl sydd yn gyfrifol neu'n rheoli eich busnes.

# MANYLION CYSWLLT DEFNYDDIOL

## Mae yna restr o ffonau cyswllt isod ar gyfer yr asiantaethau sydd yn rhan o Fforwm Cydnerth Lleol Gwent a rhai gwefannau eraill sy'n cynnig gwybodaeth bellach.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Baenau Gwent**
01495 311556
www.blaenau-gwent.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
01443 815588 (Oriau Swyddfa)
01443 875500 (Tu Allan i Oriau Swyddfa)
www.caerphilly.gov.uk

**Cyngor Sir Fynwy**
01633 644644 (Oriau Swyddfa)
0300 123 1055 (Tu Allan i Oriau Swyddfa Mewn Argyfyngau'n Unig)
www.monmouthshire.gov.uk

**Cyngor Dinas Casnewydd**
01633 656656
www.newport.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
01495 762200
www.torfaen.gov.uk

**Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig**
08000 405040 (nid ar gyfer argyfyngau)
www.btp.police.uk

**Heddlu Gwent**
Os nad ydych angen cymorth ar frys, neu os oes ymholiad cyffredinol gennych, ffoniwch **101** (rhif ar gyfer achosion na sy'n argyfwng).

Os ydych angen cymorth ar frys, dylech ffonio **999**
www.gwent.police.uk

**Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**
Os nad ydych angen cymorth ar frys, neu os oes ymholiad cyffredinol gennych, ffoniwch **101** (rhif ar gyfer achosion na sy'n argyfwng).

Os ydych angen cymorth ar frys, dylech ffonio **999**
www.southwales-fire.gov.uk

**Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru**
01633 626262

Os ydych angen cyngor iechyd, ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar **0845 46 47** neu'r GIG ar **111**
www.ambulance.wales.nhs.uk

**Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau Ei Mawrhydi**
Ar gyfer ymholiadau na sydd yn argyfwng a'n ymwneud gyda diogelwch ar y môr yn ardal De Cymru, ffoniwch Gwylwyr y Glannau ar 01646 690909.
Os ydych angen cymorth ar frys, dylech ffonio 999 a gofyn am 'Wylwyr y Glannau'.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau eraill i'r swyddfa berthnasol, ac mae manylion ar gael ar y wefan.
www.gov.uk/government/organisations/maritime-and-coastguard-agency

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
01633 234234
www.aneurinbevanhb.wales.nhs.uk

**Galw Iechyd Cymru**
0845 46 47
https://111.wales.nhs.uk/

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**
029 2022 7744
www.publichealthwales.wales.nhs.uk

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
03000 653000
www.naturalresourceswales.gov.uk

**Dŵr Cymru**
0800 052 0130
www.dwrcymru.com

**Wales and West Utilities (Nwy)**
Nwy Sydd Wedi Dianc 0800 111 999
Ymholiadau Cyffredinol 0800 912 29 99
www.wwutilities.co.uk

**Grid Cenedlaethol (Trydan)**
Mae ond angen i gwsmeriaid ffonio **105** a nod unrhyw doriadau pŵer
www.nationalgrid.co.uk

## GWEFANNAU DENFYDDIOL ERAILL:

**Fforwm Cydnerth Lleol Gwent:**
www.gwentprepared.org.uk

**Y Swyddfa Dywydd:**
www.metoffice.gov.uk

**Llywodraeth Cymru:**
https://gov.wales/wales-resilience-forum

**Llywodraeth y DU:**
www.gov.uk/government/publications/preparing-for-emergencies

**Cofrestr Risgiau Cenedlaethol Llywodraeth y DU 2020**
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/952959/6.6920_CO_CCS_s_National_Risk_Register_2020_11-1-21-FINAL.pdf